**Canllaw Gweinyddol Sêr Symud**

**Defnyddiwch y canllaw cam wrth gam hwn i sicrhau bod eich ysgol yn barod i ddefnyddio Sêr Symud**

**CAM 1**

**Ewch i: MOVEMAKERS.ORG.UK**

Dewiswch y tab ‘Champion login’ a nodwch yr enw defnyddiwr a chyfrinair a roddwyd i chi.

**CAM 2**

**Gwiriwch fanylion eich ysgol**

Byddwch chi'n dod i'r Dangosfwrdd.

Dyma lle y byddwch chi'n gosod ac yn rheoli eich dosbarth, lawrlwytho'r llythyr i rieni/gofalwyr a monitro pa ddosbarthiadau sydd yn y modd sylfaen o hyd.

Dewiswch y golwg ‘Manage School’ o'r ddewislen ar yr ochr chwith i wirio manylion eich ysgol a gwneud unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol.

Gallwch hefyd weld cod mynediad eich dosbarth o'r sgrin hon.

Ar waelod y dudalen hon, cliciwch ar y botwm gwyrdd ‘Edit school holidays’. Mae hanner uchaf y sgrin yn dangos gwyliau Awdurdod Lleol; gallwch ychwanegu diwrnodau eraill lle bydd yr ysgol ar gau ar ail hanner y sgrin a'u hychwanegu at ddosbarthiadau unigol hyd yn oed.

Mae'n hanfodol ychwanegu gwyliau eich ysgol a dyddiadau HMS i Sêr Symud fel bod modd anwybyddu unrhyw ddiwrnodau lle nad yw disgyblion yn yr ysgol wrth gyfrifo pwyntiau a gwobrau.

**Pan fyddwch chi'n dechrau defnyddio Sêr Symud, mae'n bwysig ychwanegu gwyliau cyn lansio sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng dechrau'r tymor a'r dyddiad sy'n gosod man cychwyn yr her er mwyn sicrhau nad yw'r dyddiadau hyn lle na fyddwch chi'n cofnodi yn effeithio ar eich pwyntiau ymgysylltu.**

Mae dyddiadau gwyliau yn gynhwysol. Wrth ychwanegu gwyliau newydd, sicrhewch fod dyddiadau cychwyn a gorffen yn rhan o'r gwyliau, nid diwrnod cyntaf neu olaf y tymor.

Cofiwch glicio ar 'Save' pan fyddwch chi wedi gorffen.

**CAM 3**

**Crëwch ddosbarthiadau**

Pan fyddwch chi wedi mewngofnodi i'r cyfrif Hyrwyddwyr, dewiswch 'Creu dosbarth newydd' naill ai o'r golwg 'Dangosfwrdd' neu 'Rheoli Dosbarthiadau'.

Nodwch enw'r dosbarth, a dewiswch ym mha grŵp blwyddyn y mae'r dosbarth hwnnw. Gallwch chi ddewis mwy nag un grŵp blwyddyn os bydd angen. Dewiswch 'Next' i greu'r dosbarth.

Mae gennych chi'r opsiwn yma i gynnwys enwau cyntaf y disgyblion, neu ddewis eicon enwau.

- Os byddwch chi'n defnyddio **enwau'r disgyblion**, nodwch un enw ac un grŵp blwyddyn (lle y bo'n berthnasol) fesul llinell yn y fformat 'Fred, Blwyddyn 2'. Fel arall, gallwch uwchlwytho'r wybodaeth hon mewn ffeil CSV. Os bydd gennych chi mwy nag un enw sydd yr un fath, dylech chi gynnwys llythyren gyntaf eu cyfenwau, neu rif, e.e. 'Fred T, Blwyddyn 2.'
- Os byddwch chi'n defnyddio **eiconau yn unig**, trowch yr opsiwn hwn i ffwrdd a nodwch nifer y disgyblion yn y dosbarth.

Dewiswch 'Next'.

Gwiriwch a golygwch fanylion y dosbarth ar y sgrin nesaf. Pe baech chi'n dymuno, gallech chi newid yr eiconau sydd wedi'u dyrannu i bob plentyn. Unwaith y byddwch chi'n hapus, gallwch chi greu eich dosbarth.

**CAM 4**

**Y modd sylfaen/ymarfer**

Unwaith y bydd eich ysgol wedi trefnu gwasanaeth lansio, neu unwaith y bydd gennych chi ddyddiad er mwyn hunanlansio, gallwch chi gwblhau eich modd sylfaen.

Y modd sylfaen (neu'r 'modd ymarfer') yw lle mae pob dosbarth yn cofnodi sut mae disgyblion **fel arfer** yn teithio i'r ysgol bob dydd. Mae'n bwysig cwblhau'r modd sylfaen ym mhob dosbarth cyn lansio neu siarad am Sêr Symud, er mwyn sicrhau eich bod chi'n gosod man sylfaen manwl gywir ar gyfer yr her.

Dylai athrawon dosbarth ddewis y tab 'Mewngofnodi ddosbarth' a nodi'r cod mynediad ystafell ddosbarth tri gair. Gellir dod o hyd i hwn yn y golwg 'Manage school' yng nghyfrif yr Hyrwyddwyr.

Gall pob disgybl glicio ar ei enw/eicon, gan nodi sut y mae'n teithio i'r ysgol fel arfer. Unwaith y bydd pob dosbarth wedi cwblhau ei fodd sylfaen, gallwch chi ymuno â gwasanaeth lansio neu hunanlansio gan ddefnyddio'r cyflwyniad ar ein gwefan yn yr ysgol er mwyn annog disgyblion i deithio'n llesol i'r ysgol.

**CAM 5**

**Mae'r her yn cychwyn!**

Rhowch becyn ystafell ddosbarth i bob dosbarth; mae'r pecyn hwn yn cynnwys canllaw ystafell ddosbarth, poster, sticeri, taflenni i rieni/gofalwyr a nodau tudalen Sêr Symud.

Mae gan eich ysgol fynediad i borth rhieni/gofalwyr Sêr Symud er mwyn helpu i sicrhau bod teuluoedd yn rhan o'r her. Mae'r llythyr i rieni/gofalwyr yn eich dangosfwrdd yn cynnwys cyswllt unigryw – argraffwch y cyswllt hwn neu ei rannu â nhw, neu copïwch y testun i'ch cylchlythyr.

**Cwestiynau?**

Mae mwy o adnoddau ar gael ar ein gwefan, yn adran 'Helpu' platfform Sêr Symud, neu gallwch chi e-bostio: movemakers@livingstreets.org.uk.